# Portreadau o fenywod yng nghartwnau *Papur Pawb* yn ystod cyfnod Streic Fawr y Penrhyn, 1900–1903[1]

Teleri Owen

*Yr Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd*

Cyflwynwyd: 21 Tachwedd 2024; Derbyniwyd: 2 Gorffennaf 2025

**Crynodeb**: Mae'r erthygl hon yn archwilio'r modd y portreadwyd menywod yn ystod Streic Fawr y Penrhyn (1900–03), sef un o wrthdrawiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes y mudiad llafur yng Nghymru. Trwy ddadansoddi casgliad o gartwnau gan J. R. Lloyd Hughes a gyhoeddwyd yn *Papur Pawb*, cyflwynir dadansoddiad o'r ffordd y bu'r wasg leol yn creu ac atgyfnerthu delweddau cymhleth o fenywod mewn cyd-destun o wrthdaro diwydiannol a thrawsnewid cymdeithasol.

Canolbwyntir ar dri phrif fath o gynrychiolaeth: y Dioddefwyr Tawel, sy'n adlewyrchu disgwyliadau traddodiadol o fenywod fel ffigyrau goddefol a domestig; cymeriadau poblogaidd fel Jenny a Shan, sy'n gweithredu fel llais satiraidd ac weithiau'n herio normau rhywedd; a'r Ymgyrchwyr, sef menywod gweithgar a lleisiol a ddangosir yn cymryd rhan uniongyrchol mewn protestiadau a gwrthdaro. Mae'r categorïau hyn yn dangos sut y gwnaeth delweddau menywod weithredu'n symbolaidd ac yn wleidyddol, gan lunio'r ddealltwriaeth gyhoeddus o'u rôl yn y streic.

Gosodir y darluniau hyn yng nghyd-destun ehangach diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, gan ystyried croestoriadau imperialaeth, Cymreictod a dosbarth. Gan adeiladu ar waith ysgolheigion megis Peter Lord a Chris Williams, mae'r erthygl yn dadlau bod y cartwnau hyn yn ffynonellau hanfodol ar gyfer astudio profiadau a gweithrediadau menywod, yn ogystal â deall sut y ffurfiwyd hunaniaeth genedlaethol a chymdeithasol Cymru ar droad yr ugeinfed ganrif. Yn y modd hwn, mae'r astudiaeth yn cyfrannu at hanes menywod Cymru ac at y maes ehangach o ddiwylliant gweledol.

**Allweddeiriau:** Streic, Cymru, Merched, Penrhyn, Portreadau, Chwarel, Papurau Newydd, Hanes, Cartwnau

[1] Dymuna'r awdures ddiolch yn ddiffuant i Dr Marion Löffler, Darllenydd Hanes a Hanes Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, am ei chymorth amhrisiadwy, ei hadborth craff, a'i chefnogaeth ddiwyro drwy gydol datblygiad yr erthygl hon. Roedd ei harbenigedd a'i hanogaeth yn allweddol wrth lunio'r gwaith terfynol.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

# Portrayals of women in the cartoons of *Papur Pawb* during the period of the Great Penrhyn Strike, 1900–1903

**Abstract**

This article examines the representation of women during the Great Penrhyn Strike (1900–03), one of the most significant industrial disputes in the history of the labour movement in Wales. Through an analysis of a selection of cartoons by J. R. Lloyd Hughes, published in *Papur Pawb*, the article explores how the local press constructed and reinforced complex images of women within the context of industrial conflict and social change.

The discussion focuses on three main categories of representation: the Silent Sufferers, who reflect traditional expectations of women as passive and domestic figures; the cultural characters Jenny and Shan, who served as satirical voices and at times challenged prevailing gender norms; and the Campaigners, active and vocal women depicted as directly participating in protests and confrontations. These archetypes highlight the symbolic and political roles assigned to women and demonstrate how visual media shaped public perceptions of their position during the strike.

The cartoons are situated within the wider social and political context of the late nineteenth and early twentieth centuries, paying particular attention to intersections of imperialism, Welshness, class and gender. Building on the work of scholars such as Peter Lord and Chris Williams, the article argues that these visual sources are crucial for understanding not only women's experiences and agency, but also the ways in which industrial disputes were linked to broader debates about national and cultural identity in Wales. In doing so, the article contributes both to Welsh women's history and to the growing field of visual culture studies.

**Keywords:** Strike, Wales, Women, Peninsula, Portraits, Quarry, Newspapers, History, Cartoons

## Cyflwyniad

Ym mis Tachwedd 1900, dechreuodd Streic Fawr y Penrhyn, un o wrthdrawiadau mwyaf arwyddocaol hanes y mudiad llafur yng Nghymru a Phrydain Fawr. Parhaodd y streic o fis Tachwedd 1900 hyd at fis Tachwedd 1903, gan achosi dioddefaint mawr i'r gymuned a dirywiad yn y diwydiant llechi.[2] Mae'r erthygl hon yn dadansoddi casgliad dethol o gartwnau J. R. Lloyd Hughes, a gyhoeddwyd ar dudalen flaen cyfnodolyn *Papur Pawb* yn ystod cyfnod y streic.[3] Wrth ddadansoddi'r delweddau, canfyddir tri phrif ystrydeb â gwahanol swyddogaethau: Y Dioddefwyr Tawel, Jenny a Shan, a'r Ymgyrchwyr. Gan ddefnyddio dulliau a ddatblygwyd gan ysgolheigion megis Peter Lord a Chris Williams, mae'r erthygl

[2] Noder: mae cryn ddadl ynghylch a ddylid galw'r digwyddiad yn 'streic', 'cloi allan', neu hyd yn oed yn 'rhyfel', ond at ddibenion yr erthygl hon, defnyddir 'streic' gan mai hwn yw'r term mwyaf cyffredin, a dechreuodd y digwyddiad fel streic gyda gweithwyr yn parhau i streicio ar ôl i'r chwarel ailagor ym mis Mehefin 1901.

[3] Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 'Papur Pawb', *Welsh Newspapers/Papurau Newydd Cymru*, <https://newspapers.library.wales/browse/3585945> [Cyrchwyd: 17 Chwefror 2024].

hon yn archwilio cymhlethdodau rhywedd yn nynameg y streic ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, fel a amlygir yn y cartwnau. Trwy ddadansoddi delweddau dethol fel astudiaethau achos, tynnir sylw at rolau a phrofiadau amrywiol menywod yn ystod y streic – o fod yn ddioddefwyr tawel i fod yn weithredol. Nod yr erthygl hon yw cyfrannu at ddealltwriaeth ddyfnach o gyfranogiad menywod, y portread ohonynt yn y cyhoeddiadau, ac effaith hyn ar ddynameg gymdeithasol cymunedau diwydiannol y chwareli.

## Cyd-destun

Cyn camu at y dadansoddiad, mae'n hanfodol darparu ychydig o gyd-destun a chefndir hanesyddol i Streic Fawr y Penrhyn, yn ogystal ag arwyddocâd *Papur Pawb* wrth ddogfennu a siapio'r drafodaeth gyhoeddus a fu yn ystod y cyfnod hwn.

Papur newydd Cymraeg a gylchredwyd rhwng 1893 a 1910 oedd *Papur Pawb*, a oedd yn adnabyddus am ei erthyglau doniol, straeon byrion, a darnau llenyddol.[4] Cynhyrchwyd dros 900 o argraffiadau ohono, gan gynnwys oddeutu 200 o ddarluniau a chartwnau gan J. R. Lloyd Hughes.[5] Ymhlith y golygyddion yr oedd Daniel Rees, Owen Picton Davies ac Evan Abbott, a oedd yn enwau adnabyddus yn y wasg Gymreig yn ystod y cyfnod. Gan ddechrau fel atodiad i'r *Herald Cymraeg*, daeth yn gyhoeddiad annibynnol. Anfonwyd copïau cynnar at ffigyrau dylanwadol a derbyniwyd adborth cadarnhaol am ei gynnwys ffres.[6] Mae hefyd yn un o'r ychydig ffynonellau gweledol sydd wedi goroesi sy'n darlunio Streic Fawr y Penrhyn. Yn wahanol i gyfnodolion eraill y cyfnod, fel y *Western Mail,* fe'i cyhoeddwyd yng Nghaernarfon, yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Mae'r cyd-destun rhanbarthol ac ieithyddol hwn yn gwneud *Papur Pawb* yn arbennig o arwyddocaol ar gyfer deall safbwyntiau lleol ar Streic y Penrhyn, ac ar gyfer edrych ar y gwrthdaro drwy lygaid Cymreig.

Roedd diwydiant llechi gogledd-orllewin Cymru yn cyflogi rhwng 12,000 a 15,000 o chwarelwyr yn y cyfnod rhwng ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.[7] Cynhyrchodd hen siroedd Meirionnydd a Chaernarfon dros 90% o lechi Prydeinig, ac ystyriwyd hwy'n llechi o safon arbennig ac fe'u hallforiwyd yn helaeth hefyd.[8] Yn ganolog i'r diwydiant oedd Chwarel y Penrhyn, chwarel lechi brig fwyaf y byd ar ei hanterth.[9] Oherwydd natur cymharol fach y diwydiant, ni phrofwyd llawer o fewnfudo i hen

[4] Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 'Papur Pawb'.

[5] Humphreys, E. M. (1953), 'Rees, Daniel (1855-1931), Newyddiadurwr', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-DAN-1855> [Cyrchwyd: 13 Chwefror 2024].

[6] Humphreys, 'Rees, Daniel (1855-1931), Newyddiadurwr'; [Y Dudalen Flaen] (1893), *Papur Pawb*, 11 Chwefror, 1.

[7] Jones, R. M., 'The Trade Union and Political Activities of the North Wales Slate Quarrymen in Relation to Their Social and Working Conditions, 1870–1905', traethawd PhD, Prifysgol Warwick, Warwick, 1975, t. 3.

[8] Williams, G. A. (1985), *When was Wales? A History of the Welsh* (Harmondsworth: Penguin), t. 174; Löffler, M. (2023), 'Ar Dân! Stori y "Blwtsiars Hambro"', Prifysgol Caerdydd, *History@Cardiff*, <https://blogs.cardiff.ac.uk/history-at-cardiff/fire-news-and-slate-the-story-of-the-hamburg-bluchers/> [Cyrchwyd: 22 Medi 2024]; National Trust, 'The Great Penrhyn Quarry Strike', *Penrhyn Castle and Garden*, <https://www.nationaltrust.org.uk/visit/wales/penrhyn-castle-and-garden/the-great-penrhyn-quarry-strike> [Cyrchwyd: 20 Mawrth 2021].

[9] *The Penrhyn Quarry* (c. 1920) (Bangor: North Wales Chronicle Co.), t. 6.

siroedd Gwynedd, sef Sir Gaernarfon, Sir Feirionnydd a Sir Fôn.[10] O ganlyniad, datblygodd yma gymunedau agos diwylliedig a Chymraeg eu hiaith.[11] Yn wir, roedd tref Bethesda a'r pentrefi o'i hamgylch yn bodoli, i raddau helaeth, yn uniongyrchol oherwydd y diwydiant, ac roedd yr economi leol bron yn llwyr ddibynnol ar y chwarel hefyd.[12]

Er y crëwyd nifer sylweddol o swyddi i ddynion, rhwystrwyd datblygiad swyddi i fenywod yn yr ardal gan y diwydiant trwm hwn, yn enwedig wrth gymharu ag ardaloedd diwydiannol eraill ym Mhrydain, megis y diwydiant cotwm lle y bu swyddi ar gael i fenywod.[13] Patrwm cyffredin, felly, yn y bröydd llechi oedd priodi'n iau na chyfartaledd y wlad.[14]

Erbyn 1900, wynebai Chwarel y Penrhyn nifer o anawsterau o ganlyniad i ddiffyg moderneiddio a dirywiad yn y diwydiant adeiladu, ond yn fwy arwyddocaol rheolau gormesol yr Ail Farwn Penrhyn, George Sholto Douglas-Pennant, a'i reolwr E. A. Young. Roedd y streic yn benllanw nifer o anghydfodau yn y chwarel ynghylch anghytuno am y 'fargen' a'r hawl i fod yn aelod o undeb,[15] ond teimlwyd effaith y streic yn ddwfn gan y gymuned am flynyddoedd. Gadawodd llawer o ddynion i chwilio am waith, gan adael eu gwragedd a'u teuluoedd ym Methesda i gynnal ymdrech y streic.[16] Prin bod y gefnogaeth gan yr undeb yn ddigonol i oroesi, gan arwain at galedi eang dros dair blynedd.[17] Er mwyn rhoi rhywfaint o ryddhad, trefnwyd gweithgareddau megis cyngherddau codi arian gan wahanol gorau, yn ddynion a menywod.[18] Fodd bynnag, trodd rhai unigolion at fesurau mwy eithafol, megis lladrata a therfysgu.[19] Roedd y streic-dorwyr hefyd yn wynebu cryn adfyd, gan gynnwys rhwygiadau cymunedol, diarddel o gapeli, ac ymosodiadau cyson arnynt hwy a'u teuluoedd gan fenywod. Menywod oedd conglfeini'r gymuned, wedi'r cyfan.

Gwaetha'r modd, gydag ychydig eithriadau, mae hanes y diwydiant llechi yng ngogledd-orllewin Cymru wedi anwybyddu cyfraniadau menywod hyd yn ddiweddar. Fel mewn ardaloedd diwydiannol eraill yn Nghymru, ystyriwyd y ffaith bod menywod wedi eu

---

[10] Thomas, T. M. (1956), 'Wales: Land of Mines and Quarries', *Geographical Review*, 46; Jones, 'Trade Union and Political Activities', tt. 3–11.

[11] Thomas (1956), 'Mines and Quarries'; Jones, 'Trade Union and Political Activities', tt. 3–11.

[12] Hayman, R. (2017), 'Bethesda: An Urban Character Study', yn *Llechi Cymru* (Cyngor Gwynedd Council), t. 2; Gwyn, D. (2001), 'The Industrial Town in Gwynedd', *Landscape History*, 23.

[13] Beddoe, D. (2000), *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-Century Wales* (Cardiff: University of Wales Press), t. 31.

[14] Beddoe, *Out of the Shadows*, t. 31; Jones, R. M. (1981), *The North Wales Quarrymen, 1874–1922* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 41–2; Richards, A. J. (2006), *Slate Quarrying in Wales* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch), t. 189; Archifau Gwynedd: Desolate Bethesda, Mellor, W., c.1900–1903, XM 2138/31.

[15] Davies, E. (2003), *The North Wales Quarry Hospitals: And the Health and Welfare of the Quarrymen* (Caernarfon: Gwynedd Archive Service & Gwynedd Council); Davies, J. (1990), *Hanes Cymru* (Llandybie: Penguin), tt. 467–8; Douglas-Pennant, E. (2005), 'Penrhynism: The Second Lord Penrhyn and Trade Unionism', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 66; Richards, *Slate Quarrying*, tt. 193–4.

[16] Wright, M., 'Wales and Socialism: Political Culture and National Identity c. 1880–1914', traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2011, t. 195.

[17] Jones, C. S., a Hughes, J. E. (2003), *What I Saw at Bethesda* (Llandysul: Gomer), t. 1.

[18] Rowlands, E. W. (2010), 'Margaret Jane Parry (1878–1940): Madame Telini', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 71, t. 107; 'Bethesda a'r Cylch' (1901), *Yr Herald Cymraeg*, 30 Ebrill.

[19] Williams, *When Was Wales?*, t. 243.

gwahardd i raddau mawr o gyflogaeth ffurfiol a'u bod wedi'u cyfyngu i feysydd domestig[20] fel arwydd o'u diffyg gallu. O ganlyniad, mae naratifau hanesyddol ar chwareli'r gogledd wedi canolbwyntio ar agweddau megis y diwydiant, effeithiau economaidd, undebau llafur, a pherchnogaeth y chwareli, yn rhannol oherwydd bod nifer sylweddol o ffynonellau gwreiddiol ar gael, megis cofnodion y chwareli a'r undebau llafur, data'r cyfrifiad ac adroddiadau'r llywodraeth ar lafur a diwydiant, yn ogystal â phapurau unigolion megis yr Arglwydd Penrhyn a W. J. Parry, a'r papurau newydd a adroddai ar anghydfodau llafur ac amodau gwaith.

O ganlyniad, awgrymodd R. Merfyn Jones, a luniodd astudiaeth fanwl a dylanwadol ar y diwydiant llechi a diwylliant y chwarelwyr yn y 1980au, bod y drafodaeth academaidd ar y diwydiant llechi wedi'i dylanwadu gan y ffaith nad oedd llawer yn hysbys am y menywod a oedd yn gysylltiedig ag ef.[21] Fodd bynnag, yn rhagair ailgyhoeddiad *The North Wales Quarrymen, 1874–1922* yn 2014, cydnabu R. Merfyn Jones y dylai ei waith cynharach fod wedi rhoi rhagor o bwyslais ar brofiadau a chyfraniadau menywod.[22]

Roedd esgeuluso'r merched yn hanes y diwydiant llechi yn rhan o duedd ehangach yn hanesyddiaeth Cymru tan y 1980au. Ers hynny, mae ysgolheigion megis Deirdre Beddoe, Angela V. John, a Jane Aaron wedi sicrhau nad anghofir lleisiau menywod yn hanes Cymru.[23] Fodd bynnag, mae llawer o'r ysgolheictod newydd hwn wedi canolbwyntio yn bennaf ar dde Cymru a'r diwydiant glo, er bod rhai yn ymchwilio i hanes menywod yn yr ardaloedd llechi, megis Elin Tomos.[24] O ganlyniad, esgeuluswyd hanes menywod y diwydiant llechi, a hynny

[20] Beddoe, *Out of the Shadows*, t. 10; Williams, G. A. (1982), 'Women Workers in Wales, 1968–82', *Welsh History Review/Cylchgrawn Hanes Cymru*, 11, tt. 530–5.

[21] Am ddylanwad ei waith a gweithiau eraill, gweler: Jones, M. (1981), 'Welsh Immigrants in the Cities of North West England. 1890–1930: Some Oral Testimony', *Oral History*, 9; Jones, M. (1980), 'Notes from the margin: Class and society in nineteenth century Gwynedd' (Pluto: London), tt. 199–214; Jones, R. M. (1977), 'Y Chwarelwyr: The Slate Quarrymen of North Wales', yn Samuel, R. (gol.), *Miners Quarrymen and Salt Workers*, (London: Routledge), tt. 99–136; Jones, R. M. (1974), 'A Trade Union in Nineteenth Century Gwynedd: The North Wales Quarrymen's Union, 1874–1900', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 35; Morgan, P. (1984), 'Jones, R. Merfyn (1982), *The North Wales Quarrymen: 1874–1922* (Cardiff: University of Wales Press); distributed by Humanities Press, Inc. Atlantic Highlands, N. J. 1983. Pp. vi, 359. $13.95 paper', *Albion,* 16; Tomos, E. (2020), '"Ai nid ysbyty i'r chwarelwyr ydyw": Darpariaeth Iechyd Ysbyty Chwarel Dinorwig, c. 1875–1900', *Llafur*, 12; Gwyn, E., '"Segur fydd y cŷn a'r morthwyl mwy": Dehongli Portreadau o'r Bröydd Chwarelyddol ers 1972', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2014; Price, W. R., a Ronck, C. L. (2019), 'Quarrying for world heritage designation: Slate tourism in North Wales', *Geoheritage*, 11; Richards, *Slate Quarrying*; Manning, H. P. (2004), 'The Streets of Bethesda: The Slate Quarrier and the Welsh Language in the Welsh Liberal Imagination', *Language in Society*, 33; Gwynedd Archives (2003), 'Pay, Strikes and Living Conditions', *Slatesite / Llechwefan*, <http://www.llechicymru.info/IPSLquarrymgmnt.english.htm> [Cyrchwyd: 10 Medi 2022].

[22] Jones, R. Merfyn (2014), 'Preface to the Reprinted Edition', yn *The North Wales Quarrymen, 1874–1922,* (Cardiff: University of Wales Press), xiii–iv.

[23] Aaron, J. (1998), *Pur Fel y Dur: Y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 3–6; Aaron, J., a Rees, T. (1994), 'Introduction', yn Aaron, J., et al. (gol.), *Our Sisters' Land: The Changing Identities of Women in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 1–14 (t. 2); Beddoe, *Out of the Shadows.*

[24] Hanes menywod yng Nghymru: Jones, D. (2011), 'Counting the Cost of Coal: Women's Lives in the Rhondda, 1881–1911', yn John, A. V., *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830–1939* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 110–33; Hall, V. G. (2013), *Women at Work, 1860-*

er gwaethaf dynodiad yr ardal fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn 2021, a datblygiad atyniadau mawr i dwristiaid, fel llinell wib gyflymaf y byd yn Chwarel Penrhyn.[25] Mae hyn yn tanlinellu'r angen i ddatgelu lleisiau coll y rhai a fu'n byw, gweithio a marw mewn diwydiant sy'n parhau i lunio tirwedd a diwylliant gogledd Cymru. Trwy ehangu'r gronfa o ffynonellau, mae'n bosib darganfod rolau, portreadau, a gweithgareddau menywod yn ystod y streic. Ychwanega'r dadansoddiad hwn, felly, nid yn unig at hanes y Streic Fawr, ond at hanes y diwydiant llechi, a Chymru.

Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar waith Peter Lord a Chris Williams ar ddiwylliant gweledol Cymru o wahanol safbwyntiau; mae Lord yn canolbwyntio ar gelf a Williams ar ei werth fel ffynhonnell hanesyddol. Bathwyd y term 'diwylliant gweledol' gan Lord er mwyn cynnwys gweithiau y tu hwnt i brif orielau'r academïau a'r wladwriaeth,[26] gan ystyried gwrthrychau a delweddau yng nghyd-destun hanesyddol Cymru ac olrhain esblygiad y traddodiad o'r cyfnod cynhanes i'r presennol. Mae ei gyfrolau dylanwadol, megis *Words with pictures: Welsh images and images of Wales in the popular press, 1640–1860* a chyfres *Diwylliant Gweledol Cymru,* yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar y dylanwadau sydd wedi siapio diwylliant gweledol Cymru, gan gynnwys mytholeg Geltaidd, diwydiannau, a thirwedd Cymru.[27]

Yn *Words with Pictures*, mae Peter Lord yn edrych ar y ffyrdd y mae Cymru wedi cael ei phortreadu fel ffigwr benywaidd, gan ddechrau gyda delwedd 'Mother Cambria' gan Thomas Pennant yn 1785,[28] ac yn croniclo sut a pham y gwnaethpwyd hynny. Mae'n

---

*1939 How Different Industries Shaped Women's Experiences*, (Boydell & Brewer); Davies, K. (1996), 'Cleaning Up the Coal-Face and Doing Out the Kitchen: The Interpretation of Work and Workers in Wales', *Making Histories in Museums*; John, A. V. (1982), 'Scratching the Surface. Women, Work and Coalmining History in England and Wales', *Oral History*, 10; John, A. V. (1980), *By the Sweat of Their Brow: Women Workers at Victorian Coal Mines*, (London: Croom Helm); Ackermann, J. A. (1979), 'The Impact of the Coal Strike of 1977–1978', *ILR Review*, 32, 175–88; Stevens, C. (2017), *Voices from the Factory Floor: The Experiences of Women Who Worked in the Manufacturing Industries in Wales, 1945-75* (Stroud: Amberley Publishing); Bruley, S. (2010), *The Women and Men of 1926: A Gender and Social History of the General Strike and Miners' Lockout in South Wales* (Cardiff: University of Wales Press); Löffler, M. (2024), 'Family Matters: War-time Discourses on Women in Wales, 1793–1805', yn Jenkins, B., O'Leary, P. a Ward, S. (goln), *Gender in Modern Welsh History: Perspectives on Masculinity and Femininity in Wales from 1750 to 2000* (Cardiff: University of Wales Press); Miskell, L. (2020), 'Women and Steel in Mid-Twentieth Century Glamorgan', *The Journal of Glamorgan History*, 64; Ward, S. (2024), 'Heroic Housewives: Political Worlds, Domesticity and the Welsh Mam in Interwar Wales', yn Jenkins, B., O'Leary, P., a Ward, S. (goln), *Gender in Modern Welsh History: Perspectives on Masculinity and Femininity in Wales from 1750 to 2000* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 93–103.

[25] UNESCO (2021), 'The Slate Landscape of Northwest Wales', <https://whc.unesco.org/en/list/1633/> [Cyrchwyd: 9 Chwefror 2023]; Visit Wales 'Zip World Penrhyn Quarry', <https://www.visitwales.com/activity/zip-world-penrhyn-quarry-1446056> [Cyrchwyd: 20 April 2024].

[26] Lord, P. (1998), *Industrial Society* (Cardiff: University of Wales Press); Lord, P. (1998), *Y Gymru Ddiwydiannol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru); Lord, P. (2000), *Delweddu'r Genedl* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru); Lord, P. (2000), *Imaging the Nation* (Cardiff: University of Wales Press).

[27] Lord, P. (1995), *Words with Pictures: Welsh images and Images of Wales in the Popular Press, 1640–1860* (Aberystwyth: Planet); Lord, *Industrial Society*; Lord, *Y Gymru Ddiwydiannol*; Lord, *Delweddu'r Genedl*; Lord, *Imaging the Nation*; Lord, P. (2016), *The Tradition* (Cardigan: Parthian Books).

[28] Lord, *Words with Pictures*, tt. 79–80.

ymhelaethu ar sut y bu i 'Mother Cambria' droi yn 'Dame Venodotia/Modryb Gwen' cyn dod yn eiconig fel 'Dame Wales' yng ngwaith J. M. Staniforth yn y *Western Mail* ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Lord yn rhagdybio y gallai delweddaeth wreiddiol Cymru fel Mother Cambria fod yn gysylltiedig â Catrin o Ferain (a elwir yn *Fam Cymru*), y bu i'w phedair priodas arwain at lawer o ddisgynyddion a ffurfiodd rai o deuluoedd amlycaf Cymru.[29] Mae'n nodi sut yr oedd hyn yn ddehongliad Cymreig organig o'u gwlad eu hunain a oedd yn symud oddi wrth y cymeriad 'Taf Druan' (*Poor Taff*) a ymddangosodd yn aml yn y wasg Seisnig. Er gwaethaf y sôn am sut y daeth 'Dame Wales' yn ffigwr eiconig trwy waith dylanwadol Staniforth, mae absenoldeb yn ei astudiaeth. Nid yw'n cynnwys delweddau J. R. Lloyd Hughes yn ei lyfr,[30] er gwaethaf cyfoeth J. R. Lloyd Hughes o ddelweddau a grëwyd tua'r un adeg â delweddau Staniforth. Fel delweddau Staniforth, ymddangosodd rhai J. R. Lloyd Hughes yn y wasg Gymreig frodorol, yn ogystal ag mewn cardiau post a gwaith celf ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.[31] Mae hyn yn amlygu'r angen i ymchwilio ymhellach i waith J. R. Lloyd Hughes, gan fod ganddo gyfoeth o ddeunydd, ond ychydig iawn o gyfeiriad a geir ato yn hanesyddiaeth celf a chartwnau yng Nghymru.

Yr un mor bwysig i'r erthygl hon yw gwaith y diweddar Chris Williams, yn enwedig '"Our War History in Cartoons Is Unique": J.M. Staniforth, British Public Opinion, and the South African War, 1899–1902', am iddo archwilio rôl cartwnau J. M. Staniforth wrth lunio ac adlewyrchu barn gyhoeddus Prydain yn ystod Rhyfel De Affrica.[32] Sbardunodd y rhyfel, a oedd yn wrthdaro sylweddol a chostus i Brydain, ddadl ddomestig helaeth a sylw yn y cyfryngau. Mae haneswyr wedi trafod lefel y gefnogaeth gyhoeddus i'r rhyfel ers tro, a oedd yn amrywio dros amser a thros haenau cymdeithasol, ond ar ddarlunio y canolbwyntiodd Williams.

Drwy ymddangos mewn papurau newydd blaenllaw fel y *Western Mail* a *News of the World*, cyrhaeddodd gwaith Staniforth gynulleidfa eang. Roedd ei gartwnau megis dyddiadur gweledol, yn adlewyrchu ei farn a barn darllenwyr y papurau newydd dylanwadol, ceidwadol hyn. Roedd eu cynnwys gweledol yn chwarae rhan sylweddol mewn ymgysylltu â'r cyhoedd. Daliodd cartwnau Staniforth – a gyfunodd hiwmor â beirniadaeth – gymhlethdodau barn y cyhoedd, gan ddangos cefnogaeth i'r rhyfel ochr yn ochr ag anesmwythyd cynyddol ag ymddygiad y byddinoedd. Dengys erthygl Williams bwysigrwydd y cyfryngau gweledol wrth ddeall barn gyhoeddus hanesyddol, gan awgrymu y gallai hyd yn oed y rhai a gefnogodd

[29] Lord, *Words with Pictures*, tt. 79–80; Davies, W. L. (1953), 'Catrin (Katheryn) o'r Berain (1534/5–1591), "Mam Cymru"', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CATR-BER-1534> [Cyrchwyd: 1 Medi 2024].

[30] Lord, *Words with Pictures*.

[31] Llyfrgell Genedlaethol Cymru: J. R. Lloyd Hughes (Y Cymro), 1942, 4144; Pritchard, A., a Morgan, N. (2019), 'Representations of "Ethnographic Knowledge": Early Comic Postcards of Wales', yn Jaworski, A. a Pritchard, A., *Discourse, Communication, and Tourism* (Bristol, Blue Ridge Summit: Multilingual Matters), tt. 53–76.

[32] Williams, C. (2013), '"Our War History in Cartoons Is Unique": J. M. Staniforth, British Public Opinion, and the South African War, 1899–1902', *War in History*, 20.

imperialaeth fod yn feirniadol ohoni. Gwelir yn y man sut y cysylltwyd Streic Fawr y Penrhyn â Rhyfel y Boer yng nghartwnau *Papur Pawb* yn ogystal. Gan ddilyn model ymchwil Lord a Williams, canolbwyntir ar y cartwnau a ymddangosodd yn *Papur Pawb* yn ystod y Streic Fawr fel un o ddangosyddion barn y cyhoedd.

Nid yw hanes bywyd na gyrfa J. R. Lloyd Hughes, prif gartwnydd *Papur Pawb*, yn hawdd i'w ddarganfod, serch y nifer o gartwnau, cardiau post, a darluniau a greodd, a'r llyfrau a ysgrifennodd. Mae'n debygol ei fod yn berson adnabyddus am gyfnod, gan ei fod yn ymwneud â llawer o sefydliadau newyddiadurol cyfredol. Yn aml, mae'n newid ei lofnod ar y delweddau a greodd, a hyd yn oed yn peidio â gadael llofnod ar adegau.[33] Fodd bynnag, mae'n glir mai ef oedd darlunydd *Papur Pawb* ac mae ei arddull artistig yn ddigon unigryw er mwyn gallu ei adnabod fel perchennog y delweddau.

Gwneir cyfeiriad at waith J. R. Lloyd Hughes yn *Discourse, Communication and Tourism* a gyhoeddwyd yn 2005.[34] Y gwaith y cyfeirir ato yw'r cardiau post a grëwyd gan J. R. Lloyd Hughes ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif, gyda chasgliad yn cael ei gadw yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Annette Pritchard a Nigel Morgan wedi archwilio sut y mae cardiau post comedïaidd cynnar yr ugeinfed ganrif yn darlunio Cymru, gan ganolbwyntio ar y berthynas rhwng hunaniaeth, cynrychiolaeth a disgwrs. Er bod y cardiau post hyn yn aml yn atgyfnerthu stereoteipiau ac agweddau trefedigaethol, gan bortreadu'r Cymry'n hen ffasiwn neu'n hynafol, gall darlleniadau amgen herio'r naratifau amlycaf hyn. Mae rhai cardiau post gan artistiaid o Gymru yn cynnig safbwyntiau hunanfyfyriol neu wrthwynebol, gan ganiatáu i grwpiau ymylol watwar y stereoteipiau gosodedig. Nid yn unig y mae'r cardiau post yn ddoniol, ond maent yn adlewyrchu dynameg pŵer a gwybodaeth ddiwylliannol, gan lunio hunaniaethau trwy atgyfnerthu naratifau penodol wrth dawelu eraill.

Mae'r wybodaeth fywgraffyddol a wyddys am J. R. Lloyd Hughes yn brin. Fodd bynnag, yn nodiadau hunangofiannol y cyfreithiwr Americanaidd a'r gwladweinydd o dras Cymreig, Charles Evans Hughes (1862–1948), cyfeirir at J. R. Lloyd Hughes.[35] Roedd y dynion yn gefndryd, a nodir bod Lloyd Hughes yn newyddiadurwr a oedd yn gysylltiedig â'r *Yorkshire Post*, a'i fod wedi ysgrifennu stroriäau poblogaidd am fywyd yn Sir Fôn. Mae llythyr a ysgrifennwyd ar 8 Ionawr 1947 yn nodi mai Lloyd Hughes oedd golygydd *Y Cymro* yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn ogystal ag iddo fod mewn cysylltiad agos â'r papur wedi'r rhyfel. Mae deunydd archifol yn awgrymu bod Lloyd Hughes, yn wir, yn ymwneud â'r *Cymro* yn ystod y cyfnod hwn.[36] Brawd Lloyd Hughes oedd Howel Harris Hughes, y Gweinidog Presbyteraidd

[33] '[Y Dudalen Flaen]' (1901), *Papur Pawb*; 'Y Cwmwl dros Bethesda' (1901), *Papur Pawb*, 9 Mawrth, 1; 'Yn [sic.] Methesda' (1903), *Papur Pawb*, 28 Mawrth, 1; 'Cydymdeimlo' (1901), *Papur Pawb*, 12 Hydref, 1; '[Y Dudalen Flaen]' (1902), *Papur Pawb*, 2 Awst, 1; 'Ffwlbri Bethesda' (1901), *Papur Pawb*, 15 Mehefin, 1.

[34] Pritchard a Morgan, 'Early Comic Postcards of Wales'.

[35] Danelski, D. J., a Tulchin, J. S. (1973), 'The Autobiographical Notes of Charles Evans Hughes' (Cambridge, Massachusettes: Harvard University Press), t. 325, t. 34.

[36] Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Llythyr gan J. R. Lloyd Hughes, Golygydd, *Y Cymro*, 1942, *Papurau Parch. Gwilym Davies*: GB 210 III/5/63.

a fu'n Brifathro'r Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth rhwng 1927 a 1939.[37] O wybodaeth am ei frawd, a ddisgrifiwyd fel pregethwr dylanwadol yn y Bywgraffiadur Cymreig, gallwn benderfynu bod magwraeth Lloyd Hughes yn un crefyddol iawn. Roedd yn hanu o Frynteg, Llanfair Mathafarn Eithaf, Ynys Môn, ac yn fab i J. Richard Hughes, gweinidog Presbyteraidd, a Jane oedd ei fam.[38]

Mae cartwnau J. R. Lloyd Hughes, a archwiliwyd yn archifau digidol Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Archifdy Gwynedd, yn darparu adnoddau gwerthfawr,[39] yn arddangos cymeriadau cyfarwydd i'r cyhoedd gan arsylwi'n ddychanol-feirniadol ar ddigwyddiadau mawr yr oes, fel Rhyfel y Boer a Streic y Penrhyn, ac yn cynnig cipolwg ar gymdeithas a gwleidyddiaeth gyfoes Cymru.[40] Mae'n arwyddocaol i nifer o'r cartwnau ddelweddu cymeriadau cyffredin, rhai ohonynt â hanes hir ac ystyr sefydlog i'r sawl a fyddai'n eu gweld. Yr enghraifft amlycaf o gymeriad cyffredin yw John Bull, ond byddai cymeriadau Cymreig, megis Zabulon Dafydd, Jenny Jones a Shan, wedi bod yn gyfarwydd i'r cyhoedd Cymreig yn ogystal.[41] Cartwnau am Ryfel y Boer sy'n dominyddu tudalen flaen *Papur Pawb* rhwng 1899 a 1902, ond yn wahanol i waith artistiaid megis Staniforth, cyfunwyd hyn â delweddu datblygiad Streic Fawr y Penrhyn.

Er gwaethaf eu mewnwelediadau cyfoethog, mae gan y detholiad o gartwnau a archwiliwyd yn yr astudiaeth hon gyfyngiadau sylweddol. Nid ydynt yn cynrychioli lleisiau uniongyrchol menywod ond yn hytrach yn adlewyrchu persbectif y cartwnydd, J. R. Lloyd Hughes, y mae ei sefyllfa dosbarth canol a'i gyd-destun golygyddol yn amlwg yn siapio ei bortreadau. Nid bwriad pennaf *Papur Pawb* oedd bod yn gofnod ffeithiol. Fe'i disgrifiwyd fel 'y "Punch" Cymreig' mewn hysbysebion ar ei gyfer a ymddangosai mewn papurau newydd eraill, megis *Baner* (Dinbych).[42] Roedd 'Punch' yn gyfnodolyn darluniadol Seisnig a oedd yn enwog am ei hiwmor dychanol, gwawdluniau a chartwnau.[43] Felly, roedd *Papur Pawb* yn rhannu llawer o'i nodweddion, megis ei dôn ddoniol, cartwnau, a storïau dychanol, sy'n golygu na ellir cymryd ei ddarluniau fel adroddiadau gwrthrychol o ddigwyddiadau neu agweddau. Ar ben hynny, mae'r delweddau hyn yn cyflwyno un safbwynt ar y streic yn unig a maent yn hepgor profiadau a dehongliadau eraill o fewn y gymuned. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod *Papur Pawb* yn un o'r ychydig bapurau newydd Cymraeg i

---

[37] Danelski a Tulchin, t. 325, t. 34; Roberts, G. M. (1997), 'Howel Harris Hughes (1873–1956), Gweinidog (MC), Prifathro'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-HUGH-HAR-1873> [Cyrchwyd: 1 Medi 2024].

[38] Roberts, 'Howel Harris Hughes (1873–1956), Gweinidog (MC), Prifathro'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth'.

[39] Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 'Papur Pawb'; Gwynedd Archives, 'Pay, Strikes and Living Conditions'.

[40] Nid yw'n bosibl dadansoddi holl waith Lloyd Hughes yma. Gwneir hyn mewn cyhoeddiad arall, sydd ar y gweill.

[41] Taylor, M. (1992), 'John Bull and the Iconography of Public Opinion in England c. 1712–1929', *Past & Present*; Taylor, M. (2017), 'Bull, John (Supp. Fl. 1712–), Fictitious Epitomist of Englishness and British Imperialism' (Oxford: Oxford University Press).

[42] 'Advertisements & Notices' (1900), *Baner ac Amserau Cymru*, 1, 1 Rhagfyr, 1.

[43] The Editors of Encyclopedia Britannica (2024), 'Punch (British Periodical)', *Encyclopedia Britannica*, <https://www.britannica.com/topic/Punch-British-periodical> [Cyrchwyd: 19 Mehefin 2025].

gyhoeddi cartwnau'n rheolaidd, ac mae'r delweddau hyn yn parhau i fod yn rhai o'r unig gynrychioliadau gweledol sydd gennym o Streic Fawr y Penrhyn a'r drafodaeth gyhoeddus o'i chwmpas, gan eu gwneud yn ffynonellau amhrisiadwy, neu hyd yn oed yn 'amherffaith', er mwyn deall y cyfnod hwn.

Islaw, ceir golwg ar rai o'r prif bynciau ac ystrydebau y dewisir archwilio iddynt yn yr erthygl hon.

Dewiswyd grwpio'r cartwnau ar Streic Fawr y Penrhyn i dri chategori: 'Y Dioddefwyr Tawel', 'Jenny a Shan', a'r 'Ymgyrchwyr', gan ddewis un esiampl ar gyfer dadansoddiad o wleidyddiaeth a bwriad y papur, sef sut yr oedd menywod yn cael eu gweld gan gyfoeswyr, ac effeithiau posibl y cartwnau hynny ar sut yr oedd pobl yn ystyried menywod, gan obeithio datgelu agwedd ar hanes menywod yn ystod y Streic Fawr.

Rhydd y categori cyntaf, 'Y Dioddefwyr Tawel', fewnwelediad i ddeinameg gymdeithasol a rolau rhywedd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Felly, archwilir sut y mae'r categori hwn yn cyfleu'r pwysau cymdeithasol ar fenywod a'r heriau a wynebwyd gan ddynion a menywod yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Yn ogystal â darluniau traddodiadol o'r 'Fam Gymraeg' – rhan ganolog o dudalennau *Papur Pawb* – ceir yn y papur ddelweddau o fenywod fel 'Shan' a 'Jenny Jones', a grynhowyd i'r categori 'Jenny a Shan'. Yn ychwanegol i ymgorffori gwerthoedd ac ystrydebau traddodiadol Cymreig yn gynnil, mae'r rhain yn cyfrannu at drafodaethau am faterion gwleidyddol nodweddiadol trwy eu rhyngweithiad â ffigyrau gwrywaidd fel y Cymro ystrydebol Zabulon Dafydd a'r Sais ystrydebol John Bull, ei gymar o Loegr ers diwedd y ddeunawfed ganrif. Mae Jenny a Shan wedi'u dilladu mewn gwisgoedd Cymreig traddodiadol, er mwyn cynrychioli menywod Cymreig, ac ar adegau'r hunaniaeth Gymreig ei hun, yng nghartwnau *Papur Pawb*, fel y gwna delweddau o 'Dame Wales' mewn cyhoeddiadau eraill.[44] Darlunnir Jenny Jones yn fenyw hyddysg â diddordeb mewn gwleidyddiaeth, ac mae Shan yn ymgorffori ysbryd gwydn menywod Cymru yng nghanol heriau bywyd diwydiannol. Yn wahanol i'r 'Dioddefwr Tawel', mae Jenny a Shan yn siarad â'r cymeriadau eraill, gan symud o bortreadu ffigyrau traddodiadol Cymreig i bortreadu menywod galluog.

Mae'r trydydd categori, 'Yr Ymgyrchwyr', yn cynnwys y darluniadau mwyaf anghyffredin o fenywod yn ystod y streic. Mae'r gynulleidfa yn gweld menywod sy'n weithredol ym mrwydrau'r streic. Ac eithrio Shan a Jenny Jones, sy'n cynrychioli Cymru i ryw raddau, y rhain yw'r unig adegau yr ydym yn gweld menywod fel adroddwyr amlwg y stori, ar flaen y gad yn achos y streic. Gellir dehongli'r categori hwn fel arsylwad ar densiynau rhwng rolau disgwyliedig menywod a'u gwir weithredoedd yn ystod y streic.

---

[44] *Words with Pictures*, t. 79.

## Y dioddefwyr tawel

Mae J. R. Lloyd Hughes yn portreadu menywod y cymunedau chwarelyddol yr effeithir arnynt gan streiciau fel dioddefwyr tawel yng nghanol cynnwrf cymdeithasol, gan gyferbynnu hyn â rolau gweithredol y dynion a oedd yn ymwneud ag anghydfodau llafur dros gyfiawnder. Mae dewisiadau artistig Lloyd Hughes nid yn unig yn adlewyrchu disgwyliadau cymdeithasol gwrywdod a benyweidd-dra ond hefyd yn tynnu sylw at naratifau cymhleth brwydr a gwytnwch cymunedau Cymreig sy'n mynd i'r afael â chynnen diwydiannol.

Mae i'r categori hwn sawl agwedd a bwriad. Yn gyntaf, arddengys disgwyliadau o wrywdod; os nad yw'r dynion yn cael eu gweld yn codi ar eu traed yn erbyn yr Arglwydd Penrhyn, fe'u hystyrir yn wan a di-rym gan eu cyfoedion, ac o ganlyniad, yn llai gwrywaidd, gan fod llafur dynol yn symbol o wrywdod.[45] Ar yr llaw arall, trwy bortreadu'r menywod yn eu rolau traddodiadol a'u sefyllfa ddisgwyliedig ddistaw, awgrymir mai dim ond y dynion sy'n brwydro tra bod y gwragedd yn dioddef. Arddengys gan yr arlunydd, felly, agweddau ar rolau'r dynion a'r menywod mewn cymdeithas. Darparai'r dynion ar gyfer y teulu, gan ymladd dros gyfiawnder, tra bod y menywod pryderus yn dioddef gartref neu yn y cysgodion, gan aros am eu hachubwyr.

Yn ail, byddai'r delweddau'n ennyn cydymdeimlad y cyhoedd tuag at y menywod a'r plant yn eu dioddefaint,[46] gan helpu i greu tueddiadau elusengar tuag at y sawl mewn angen, yn rhannol er mwyn annog y rhai a allai gynorthwyo. Sail yr apêl yw bod menywod yn cydymffurfio â disgwyliadau cymdeithasol o 'fenywod da' drwy beidio â bod yn radicalaidd neu'n weithredol drwy frwydro na lleisio barn. Fel gwragedd traddodiadol, maent yn cadw enw da'r teulu, ac yn magu eu plant ar sail egwyddorion gweddus: y genhedlaeth nesaf o deuluoedd parchus.[47] Dyma'r math o ddelweddau sydd wedi effeithio'n fawr ar sut y mae cymdeithasau modern yn deall menywod. Maent yn symbolau sy'n cael eu defnyddio i ennyn cydymdeimlad y cyhoedd tuag at yr anghenus: mae'r fenyw ufudd, ddioddefgar, barchus, yn haeddu cymorth er mwyn darparu ar gyfer ei theulu a magu ei phlant.

Mae'r ffordd y dewisodd J. R. Lloyd Hughes bortreadu'r dioddefaint yn ingol, gyda'r menywod yn aml yn cael eu darlunio o'r cefn, eu cyrff wedi'u gorchuddio â ffrogiau tywyll ac yn cydio yn eu siolau, eu babanod neu eu plant. Mae eu hwynebau'n aneglur wrth iddynt eu cuddio yn eu dwylo, gydag iaith eu cyrff yn cyfleu gofid ac anobaith. Mae'r arddull hon


---

[45] O'Leary, P. (2024), 'Masks and Matter: Mining Masculinities in the South Wales Coalfield, 1870–1914', yn Jenkins, B., O'Leary, P., a Ward, S. (goln), *Gender in Modern Welsh History: Perspectives on Masculinity and Femininity in Wales from 1750 to 2000* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 37–8; Griffin, E. (2020), *Bread Winner: an Intimate History of the Victorian Economy* (New Haven: Yale University Press); Strange, J.-M. (2015), *Fatherhood and the British Working Class, 1865–1914* (Cambridge: Cambridge University Press).

[46] Hughes, J. E. (2004), 'Introduction', yn *What I Saw at Bethesda (gan Charles Sheridan Jones)* (Llandysul: Gomer), tt. vii–xxiv.

[47] Mae'r dynion hefyd yn ymddwyn yn barchus drwy geisio darparu ar gyfer eu teuluoedd a brwydro dros gyfiawnder yn eu gwaith, ym marn *Papur Pawb* (sy'n bapur rhyddfrydol), ond mae ffocws yr erthygl hon ar y menywod.

yn mynd yn ôl o leiaf gant o flynyddoedd i Ryfeloedd Napoleon, fel y dengys gwaith yr arlunydd Cymreig Edward Pugh o 1794.[48] Mae'r dull artistig hwn, felly, yn dilyn traddodiad o roi menywod mewn golygfeydd o ddinistr, gan dynnu sylw at eu dioddefaint a'u gwytnwch yn wyneb adfyd. Drwy eu delweddu yn y ffordd hon, mae Lloyd Hughes yn traddodi naratif ehangach o effaith y gwrthdaro diwydiannol ar gymunedau yn gyffredinol, lle yr oedd menywod yn aml yn dioddef creulondeb y caledi, gan chwyddo delweddau traddodiadol o'r 'Fam Gymraeg'




**Delwedd 1: Y Cwmwl dros Bethesda, *Papur Pawb*, 9 Mawrth 1901, t. 1. (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)**

[48] Barrell, J. (2013), *Edward Pugh of Ruthin 1763–1813: 'a Native Artist'* (Cardiff: University of Wales Press).

Gwelir y bwriad a'r elfennau hyn yn glir yn y cartŵn 'Y Cwmwl Dros Bethesda', a gyhoeddwyd yn ystod mis Mawrth 1901, tua pedwar mis ar ôl dechreuad y Streic Fawr.[49] Mae arddull artistig y darlun yn llawn symbolaeth o brofiadau ingol trigolion Bethesda, gan gynnwys nifer o elfennau artistig nodweddiadol o'r cyfnod. Mae'r awyrgylch yn dywyll; brwydra'r haul i ymddangos uwchben y cymylau pygddu, gan ddelweddu'r anobaith a'r ansicrwydd sy'n rheoli ac yn crogi Bethesda trwy gydol y streic. Mae'r cymylau fel trosiad o'r trallod emosiynol ac economaidd sy'n amgylchynu'r gymuned, tra bod yr haul y tu ôl i'r cymylau yn dynodi gobaith bregus am ddyfodol gwell. Eto i gyd, mae'n bosibl mai machlud yr ydym yn ei weld, a chychwyn nos yr argyfwng.

Mae'r eglurhad, 'A erys eto'n hir. Y ddu dymhestlog nos?', yn pwysleisio'r trosiad sy'n cymharu caledi'r streic â'r nos dywyll hir neu storm enbyd. Mae strwythur yr egluryn fel cwestiwn yn cyfleu synnwyr o hiraeth a diffyg amynedd yn ystod y streic a'r dyhead am normalrwydd. Wrth osod y cwestiwn, mae'n ysgogi'r gwylwyr i fyfyrio ar dreigl amser a'r hyn sydd ei hangen arnynt i oroesi'r dioddefaint hirfaith.

Yr elfen weithredol yn y ddelwedd yw'r dynion sy'n cerdded i ffwrdd i byllau glo de Cymru ar y gorwel pell digwmwl, gan awgrymu bywyd gwell i'r sawl sy'n mudo i'r diwydiant glo tra bod y diwydiant llechi yn profi gwewyr y streic. Dengys y cofnodion fod oddeutu traean o'r chwarelwyr wedi ymadael â Bethesda yn ystod y streic, yn bennaf i chwilio am gyflogaeth yn y pyllau glo, a chadarnheir hyn gan y cartŵn.

Mae'r ddwy fenyw yn y blaen yn eistedd yn llonydd, gan gydio mewn babanod a phlant bach a dioddef yn dawel, eu hwynebau wedi eu cuddio gan dristwch a galar, yn amlygu effaith emosiynol y streic ar famau a gofalwyr. Nid yw'n hawdd gweld y fenyw yn y cefndir sy'n sefyll gyda phlentyn bach wrth ei hochr. Drwy ganolbwyntio ar rolau mamol a mynegiant o dristwch, pwysleisir effaith y gwrthdaro diwydiannol ar y rhai sy'n magu a diogelu teuluoedd. Mae'r penderfyniad i guddio eu hwynebau yn ychwanegu haen o gyffredinedd i'w profiad, gan wahodd y darllenwyr i gydymdeimlo â dioddefaint menywod mewn amgylchiadau tebyg yn ogystal â phoen y rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r streic ei hun. Mae'n tanlinellu urddas a dynoliaeth yng nghanol adfyd, gan awgrymu nad yw'r dewis artistig hwn yn lleihau dioddefaint y menywod ond yn hytrach yn mawrygu eu gwyleidd-dra. Eto i gyd, golyga hyn hefyd eu bod yn oddefol, nid yn weithredol. Yn hyn i gyd, mae'r cartŵn yn barhad o duedd artistig sefydledig o ddefnyddio menywod fel symbolau o alar, dioddefaint, a thristwch, a fynegwyd yng nghelf y Cymry fel yng nghelf cenhedloedd eraill.[50] Un o'r enghreifftiau enwocaf o hyn yw *Pietà* Michael Angelo, lle y mae'r Forwyn Fair yn cael ei darlunio'n galaru dros gorff Iesu Grist, gyda'r ffigwr benywaidd yn cynrychioli tristwch, galar a gofid.[51]


---

[49] 'Y Cwmwl dros Bethesda', *Papur Pawb*.

[50] Barrell, *Edward Pugh of Ruthin*, t. 69; Siebrecht, C. (2013), *The Aesthetics of Loss: German Women's Art of the First World War* (Oxford: Oxford University Press).

[51] The Editors of Encylopedia Britannica (2023), 'Pietà', *Encyclopedia Britannica*, <https://www.britannica.com/topic/Pieta-iconography> [Cyrchwyd: 19 Mehefin 2025]; Lord, *Imaging the Nation*, t. 256; Siebrecht, *Aesthetics of Loss*; De Campos, D., a Buso, L. (2021), 'The Faces Hidden in the Anatomy of Michelangelo Buonarroti's Pietà in the Vatican', *Acta Biomed*, 92 (2), <The faces hidden in the anatomy of Michelangelo Buonarroti's Pietà in the Vatican - PubMed> [Cyrchwyd: 19 Mehefin 2025].

Gwelir yn glir y gwahaniaeth rhwng y menywod a'r dynion. Mewn cyferbyniad i ymddangosiad prudd a goddefgar y menywod, darlunnir y dynion yn sefyll yn gadarn, eu hwynebau'n llawn cydymdeimlad â'r menywod, neu'n gweithredu drwy droedio'n bwrpasol tuag at byllau glo de Cymru er mwyn chwilio am waith y tu hwnt i Fethesda.[52] Mae'r cyferbyniad yn amlygu'r dosbarthiad o lafur ar sail rhyw, ac felly hefyd yn amlygu rolau cymdeithasol disgwyliedig benywaidd a gwrywaidd; y dynion sy'n weithredol a symudol yn eu cais am waith, a'u gwragedd sy'n oddefol a galarus. Mae'r cyfosodiad o oleuni a thywyllwch yn cryfhau'r cyferbyniad rhwng rolau dynion a menywod, gan ddynodi cymhlethdod eu profiadau: gydag anobaith yn cydfodoli â fflachiadau o obaith ac ansicrwydd y dyfodol mewn rhan arall o Gymru. Mae'n bosibl y bydd y teuluoedd yn ffynnu yn eu cartrefi newydd, ond maent yn gadael teulu a chymuned glòs.




**Delwedd 2: Yn [sic.] Methesda, *Papur Pawb*, 28 Mawrth 1903, t. 1. (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)**

[52] Davies, *Hanes Cymru*, t. 468; Jones, *North Wales Quarrymen*.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym mis Mawrth 1903, cyhoeddwyd cartŵn tebyg yn *Papur Pawb*.[53] Unwaith eto, defnyddia J. R. Hughes linellau tywyll crafog a throsiadau er mwyn cyfleu trallod y sefyllfa. Ond erbyn hyn gwelir teulu cyfan, gyda gŵr, gwraig, babi a phlentyn yn syllu tuag at chwarel y Penrhyn ac ar gert waith sydd wedi'i throi ben i waered. Tywynna'r haul y tu ôl i gwmwl mawr du, ac mae'r egluryn yn nodi 'A ydyw'r wawr yn torri tybed?'. Yn debyg i'r cartŵn arall, mae'r cyfosodiad o olau a thywyllwch yn dangos cymhlethdod y profiad dynol. Mae'r arlunydd yn gofyn: a yw'r wawr am dorri, ac os felly, pryd? Erbyn i'r cartŵn hwn ymddangos, roedd y streic wedi parhau am dros ddwy flynedd heb ddatrysiad. Mae'r defnydd o linellau crafog yn y cartwnau hyn yn pwysleisio ymhellach yr anhrefn a'r dinistr o'u cwmpas. Mae'r dechneg hon yn cael ei dwysáu yn nelwedd 1903 sy'n cyfleu'r anobaith ar ddiwedd y streic. Mae'r olygfa yn dywyllach gan ei bod yn edrych yn ôl ar gymdeithas a ddinistriwyd ac ar ddiwydiant yn dirywio gyda'r certi gwaith wedi'u troi ben i waered. A yw'r wawr yn torri? A yw'r haul yn mynd y tu ôl i gwmwl storm? Neu a yw'r haul yn machlud ar eu hen ffordd o fyw yng nghymunedau'r chwareli?


Unwaith eto, mae mynegiant corfforol ac osgo'r fenyw yn cyfleu ymdeimlad o bryder, gan adlewyrchu'r awyrgylch ehangach o ddigalondid ac ansicrwydd ynghylch dyfodol y chwareli a'r teulu. Sylla tuag at y gorwel i gyfeiriad Chwarel y Penrhyn, gan awgrymu cymysgedd o obaith a thrallod wrth iddi ystyried dyfodol ei chymuned a'i ffordd o fyw. Mae osgo'r ferch fach wrth ei hochr yn adlewyrchu un y fam, ei hysgwyddau wedi eu plygu gan gyfleu ei bod eisoes yn cario pwysau gofid. Fel yn llawer o ddarluniau'r cyfnod, dynodir y fam yn 'fam Gymreig' drwy'r siôl y caiff y babi ei lapio ynddi. Erbyn hyn, mae'r gŵr yn sefyll wrth ei hochr, ei wyneb yntau wedi troi i ffwrdd, gyda'i gap gwastad wedi'i dynnu i ffwrdd mewn arwydd o barch neu anobaith, yn pwysleisio eu dioddefaint fel teulu. Yn wahanol i gartwnau eraill, safant ochr yn ochr, wedi eu huno mewn moment o ystyried dyfodol tywyll.

## Jenny a Shan

Yn ganolog i nifer o'r cartwnau yn *Papur Pawb* y mae cymariaethau o'r Streic Fawr â Rhyfel y Boer, ac mae'r cartŵn hwn (delwedd 3) o fis Hydref 1901 yn enghraifft dda ohonynt.[54] Eistedda Jenny Jones a John Bull ar fainc o dan goeden, y ddau yn gwisgo dillad traddodiadol er mwyn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr: Jenny Jones yng ngwisg y werin Gymreig, a John Bull yn ei het gopa hir a siwt. Darllenant bapurau newydd nodweddiadol o'u cyd-wladwyr. Edrycha Jenny ar erthygl o'r *Herald Cymraeg* o dan y pennawd 'Helynt y Penrhyn'. Mae John Bull yn pori drwy'r *Daily Mail*, a'r pennawd yn sôn am 'Transwaal' a hirhoedledd Rhyfel y Boer, pwnc o ddiddordeb dwys i Loegr. Tanlinellir diddordeb Jenny mewn gwleidyddiaeth a ffocws y papur newydd ar faterion Cymreig, fel streic y Penrhyn, ond crëir cysylltiad rhwng y streic a chyd-destun ymerodraethol Rhyfel y Boer.

---

53 'Yn [sic.] Methesda', *Papur Pawb*.
54 'Cydymdeimlo', *Papur Pawb*.




**Delwedd 3: Cydymdeimlo, *Papur Pawb*, 12 Hydref, 1901, t. 1. (Llyfrgell Genedlaethol Cymru)**

Mae darlunio Jenny Jones a John Bull yn eu gwisgoedd traddodiadol yn tynnu sylw'r gynulleidfa at y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr o ran hunaniaeth ddiwylliannol a chenedlaethol. Mae gwisg Jenny, y wisg genedlaethol a ddatblygwyd gan Arglwyddes Augusta Hall yn y 1830au, ac a oedd erbyn hyn wedi ei derbyn yn gyffredinol, yn atseinio treftadaeth a thraddodiad Cymru ac yn symbol o hunaniaeth a gwytnwch Cymreig.[55] Ar y llaw arall, mae het a gwisg John Bull yn fonheddig, ffurfiol ac awdurdodol, ac yn dynodi ei gysylltiad â Seisnigrwydd ac imperialaeth Brydeinig. Agwedd ychwanegol, o bosibl yw'r gwahaniaeth rhyngddynt o ran dosbarth, gyda Jenny yn aelod o'r 'werin' tra bod John yn

[55] Lôffler, M. (2016), 'Hall, Augusta, Lady Llanover ('Gwenynen Gwent') (1802–1896), 'Patron of Welsh Culture and Inventor of the Welsh National Costume', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://biography.wales/article/s10-HALL-AUG-1802> [Cyrchwyd: 2 Medi 2024].

'fonheddwr' Seisnig. Gwahoddir y darllenwyr i ystyried dimensiynau rhywedd hunaniaeth a chynrychiolaeth genedlaethol.

Mae cyferbyniad mawr rhwng mynegiant wyneb John Bull a Jenny Jones. Tra bod John Bull yn edrych yn uniongyrchol at y gwyliwr, gan awgrymu hyder a phendantrwydd, edrycha Jenny i'r ochr ac i lawr, ei hysgwyddau wedi eu plygu, gan awgrymu ymdeimlad o anobaith neu dristwch sy'n adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu gogledd Cymru yn ystod y Streic Fawr. Mae'r hyder yn llygaid John Bull yn symbol o oruchafiaeth hanesyddol ac imperialaeth Lloegr; tra bod osgo Jenny yn dynodi'r ffordd y mae Cymru yn ddarostyngol i Loegr, a dioddefaint teuluoedd Penrhyn yn eilaidd i Ryfel y Boer.

Mae'r ddeialog rhyngddynt, serch hynny, yn arddangos deinameg wahanol. Yma, mae Jenny'n debycach i ffigwr o gryfder a phenderfynolrwydd tawel, gan dynnu sylw at wytnwch y Cymry, ac yn enwedig menywod Cymreig a oedd yn ddigon dewr i ateb yn ôl yn wyneb adfyd, gan herio canfyddiadau o oddefgarwch. Mae ei hymateb i eiriau John Bull yn adlewyrchu geiriau heriol yr hen fenyw Gymreig i offeiriad Seisnig bygythiol yn y cartŵn gwleidyddol Cymraeg cyntaf erioed, a gyhoeddwyd yn 1797, yn rhan o bamffled wrth-drefedigaethol Cymraeg.[56]


Crynhoir yn y deialog densiynau a natur anghymesur y cysylltiadau rhwng Lloegr a Chymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gan awgrymu trafferthion parhaus i gydnabod y dioddefaint a wynebir yng Nghymru yn y cyd-destun Prydeinig ehangach. Mae cwestiwn John Bull, 'Well Jenny, when is your Penrhyn worry going to end', yn adlewyrchu agwedd nawddoglyd tuag at bryderon y dosbarth gweithiol Cymreig, gan eu diraddio i fod yn rhai dibwys o gymharu â gwrthdaro geo-wleidyddol ymerodraethol ehangach, megis Rhyfel y Boer. Mae ymateb Jenny, 'Tua'r un adeg a'ch [sic] ffrae chwi yn Affrica, John', yn gweithredu fel gweithred fwriadus, gan herio rhagdybiaeth y Sais o ragoriaeth a thynnu sylw at wrthdaro imperialaidd a dadleuon dosbarthiadau uwch Lloegr ei hun. Mae'r rhyngweithiad hwn yn awgrymu beirniadaeth gynnil o gynllwynio Seisnig tuag at Gymru ac yn tynnu sylw at wytnwch a gallu'r Cymry i sefyll eu tir yn wyneb y cymydog mawr.

Eto i gyd, gellir dehongli gweithred John Bull yn gosod ei law ar un Jenny Jones wrth eistedd o dan y goeden fel ystum symbolaidd o warchod awdurdodol a hegemoni Lloegr dros Gymru fach. Er gwaethaf eu gwahaniaethau o ran cenedligrwydd a phersbectif, maent yn gymdeithion gan rannu eiliad o fyfyrio ac undod. Mae cydblethiad eu dwylo yn awgrymu ymrwymiad ar y cyd i oresgyn heriau ac adeiladu dyfodol gwell gyda'i gilydd. Yn ogystal, mae eu hystum hamddenol a chyfforddus yn cyfleu ymdeimlad o barch a dealltwriaeth ar y cyd, gan herio stereoteipiau gelyniaethus neu hierarchaidd o gysylltiadau Eingl-Gymreig. John Bull, gwaetha'r modd, sy'n dominyddu'r berthynas, yn ddyn mawr sy'n cysuro Jenny fach eiddil, a'r ddau yn cyfathrebu drwy gyfrwng ei iaith ef, a iaith y wladwriaeth, sef Saesneg.

---

[56] Löffler, 'Family Matters'; Löffler, M. (2012), 'Thomas Roberts, o Lwynrhudol, Cwyn yn erbyn Gorthrymder, Yn ghyda Sylwiadau ar hawl Esgobion, a'u Gweinidogion i Ddegymau, &c. Wedi ei Ysgrifenuer Mwyn Gwerinos Cymru', yn Löffler, M., a Jenkins, B. (goln), *Political Pamphlets and Sermons from Wales 1790–1806* (Cardiff: University of Wales Press).

Ar y cyfan, mae'r cartŵn yn cynnig sylwebaeth ar rywedd, cenedlaetholdeb a gwahaniaethau pŵer yng nghyd-destun y berthynas rhwng Cymru a Lloegr, sy'n ysgogi'r meddwl. Mae'n gwahodd y gwylwyr i fyfyrio ar frwydrau dros gydraddoldeb a chydnabyddiaeth o'r dioddefaint yng Nghymru ac yn Ne Affrica. Yn ehangach, dengys gwaith Alun John Richards fod gwleidyddion Rhyddfrydol megis David Lloyd George yn uniaethu â'r anghydfod, a gwnaed ymdrechion i gyffelybu chwarelwyr y Penrhyn â ffermwyr y Boer.[57]




**Delwedd 4, *Papur Pawb*, 2 Awst 1902, t. 1.**
**(Llyfrgell Genedlaethol Cymru)**

[57] Richards, *Slate Quarrying*, t. 190.

Ar ddiwedd Rhyfel y Boer yn 1902, cyhoeddwyd y cartŵn uchod a ddengys ryngweithiad rhwng Shan, sy'n ymgorffori'r Gymraes a Chymru, â Zabulon Dafydd, y Cymro parchus archdeipaidd.[58] Yn y cefndir, gwelwn ffigwr fel John Bull yn ysgwyd dwylo gyda milwr y Boer fel symbol o heddwch a diwedd y rhyfel ym mis Mai 1902.[59] Mae'r haul yn tywynnu y tu ôl iddynt, tra bod y llinellau du crafog ar ochr arall y ddelwedd yn cyfleu'r cwmwl tywyll sydd dros Chwarel y Penrhyn o hyd. Mae anghysondeb rhwng yr heddwch rhyngwladol a'r aflonyddwch domestig parhaus, felly. Mae'r cyfosodiad o olau a thywyllwch, gyda Shan yn ystyried yr awyr gymylog dros Gymru, yn awgrymu ymdeimlad o ragargoeli ac ansicrwydd, tra bod y llewyrch y tu ôl i John Bull a'r 'Boer' yn symbol o oruchafiaeth ac awdurdod imperialaidd Lloegr a'i chynghreiriaid. Erys 'problem y Penrhyn' i Gymru a Shan. Eto i gyd, hi sy'n dominyddu canol y ddelwedd, yn dalach, cliriach a mwy meddylgar na'r lleill, ac mae'r tri dyn yn llai na hi ac yn y cefndir. Cymru sy'n ganolog i'r artist, a Shan sy'n rheoli'r sefyllfa.

Cryfheir y symboliaeth gan y ddeialog. Mae sylw Zabulon Dafydd am yr heddwch yn Transvaal wedi'i gyfosod â 'gresyn garw' bod streic y Penrhyn yn parhau, gan osod yr anghydfod llafur mewn cyd-destun ehangach ymerodraethol yn anffafriol. Fel Jenny gynt, ymateba Shan yn heriol, gan awgrymu mai cymorth y Brenin a oedd wedi arwain at ddatrys 'yr helynt' yno, a mynna gyfiawnder cymdeithasol tebyg i'r chwarelwyr. Mae ei chyfeiriad at rôl y Brenin wrth setlo Rhyfel y Boer yn adleisio ateb Zabulon Dafydd a'i gyfeiriad at broblem gyda 'gwŷr mawr' y wlad hon. Mae cyferbyniad rhwng ymyrraeth y Brenin wrth ddatrys gwrthdaro tramor a difaterwch yr elitiau pwerus y mae'r Arglwydd Penrhyn yn perthyn iddynt sy'n caniatáu i anghyfiawnder barhau ledled Prydain. Gwahoddir y darllenwyr i ystyried cymhlethdodau grym ac awdurdod o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig a rôl y frenhiniaeth wrth geisio datrys tensiynau cymdeithasol a gwleidyddol. Ar y cyfan, mae'r cartŵn yn cynnig archwiliad cynnil o'r Streic Fawr yng nghyd-destun cymdeithasol ehangach Cymru a'r Ymerodraeth ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'r arlunydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr o gymhlethdodau cysylltiadau llafur, cenedlaetholdeb a brenhiniaeth yng nghyd-destun Cymru.

Yn Shan, ceir menyw weithgar, sy'n ganolog, sy'n trafod gwleidyddiaeth ac yn beirniadu strwythurau, er ei bod yn sicrhau eithrio'r Brenin o'r feirniadaeth hon. O gymharu'r cartŵn â darluniadau o 'Dame Wales',[60] mae Shan yn fwy gweithgar ac yn ymgysylltu â thrafodaethau gwleidyddol, gan herio rolau rhywedd traddodiadol a strwythurau pŵer. Eto i gyd, mae'n bosibl bod 'Dame Wales' yn cynrychioli hunaniaeth genedlaethol yn bennaf, tra bod Shan yn symbol o wleidydd sy'n denu sylw at yr argyfwng diwylliannol.

Mae Shan a Jenny Jones yn cynrychioli agweddau ar gymdeithas Cymru, yn enwedig yn eu brwydr dros gyfiawnder cymdeithasol, gwleidyddol-genedlaethol, yng nghyd-destun

---


[58] '[Y Dudalen Flaen]', *Papur Pawb.*

[59] Judd, D., a Surridge, K. (2013), *The Boer War: A History* (Bloomsbury Publishing).

[60] Ellis, J. S. (1998), 'Reconciling the Celt: British National Identity, Empire, and the 1911 Investiture of the Prince of Wales', *Journal of British Studies*, 37, 405; Lewis, C. (1995), 'Welsh Soap: "Pobol Y Cwm" and Welsh National Identity', *Critical Survey*, 7, 153.

Prydain a'r Ymerodraeth. Mae eu rhyngweithio â chymeriadau eraill fel Zabulon Dafydd a John Bull yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i ddeinameg cyfnewid diwylliannol a thrafod grym yng nghyd-destun diwylliant print Cymru, gan osod gwrthdaro'r Penrhyn yng nghyd-destun geowleidyddiaeth imperialaidd ehangach sy'n adlewyrchu natur amlochrog cymdeithas Cymru a'i hymgysylltiad â chyd-destunau cymdeithasol-wleidyddol ehangach. Yn ychwanegol, drwy ddewis menywod fel ffigyrau canolog, gweithgar, rhydd i'r gynulleidfa enghreifftiau o gyfranogiad menywod pwerus yn y sffêr gyhoeddus, yn hytrach nag enghreifftiau o ddioddefwyr tawel traddodiadol.

## Yr ymgyrchwyr




**Delwedd 5, Ffwlbri Bethesda, *Papur Pawb*, 15 Mehefin 1901, t. 1.**
**(Llyfrgell Genedlaethol Cymru)**

Cyhoeddwyd Delwedd 5, cartŵn o dan y teitl 'Ffwlbri Bethesda', ar 15 Mehefin 1901, ar adeg terfysgoedd Bethesda. Mae'n darlunio ymyrraeth yr heddlu ac ymateb menyw a bachgen, ac yn cynnig ciplun ysgogol o ddeinameg rhywedd, gweithredu ar y cyd a phrotest yn ystod y Streic Fawr.[61] Trwy flaenori menyw draddodiadol ei golwg gyda baban yn ei siôl a phlentyn wrth ei hochr, sydd eto i gyd yn protestio'n grug, dangosa'r arlunydd bod 'mamau Cymreig' yn ymgyrchwyr yn ystod y streic, yn ogystal â'u bod yn ymroi i'w rolau traddodiadol. Dengys iddynt fynd i'r afael â streic-dorwyr ac awdurdodau, herio rolau rhywedd traddodiadol, a dangos gwytnwch a gallu yn wyneb adfyd.

Mae 'Y Wreigan', gair sy'n dynodi menyw briod yn ogystal a 'dynes fach ddistadl',[62] sy'n gwisgo siôl draddodiadol, yn cydio yn ei baban ac â phlentyn ifanc yn sefyll wrth ei hochr, yn herio ystrydeb ei henw. Yn lle gwylio'n oddefol o'r ochr, dengys gadernid yn ei safiad a thrwy'r ffordd y mae'n herio'r heddweision a'r bradwyr drwy godi ei llais. Mae hi'n barod i gymryd rhan weithredol, gyhoeddus, yn y frwydr dros hawliau llafurwyr a thros gyfiawnder i'r chwarelwyr. Drwy benderfynu ei darlunio fel ymgyrchydd, mae'r artist yn tynnu sylw at rôl annatod menywod yn y terfysgoedd, sy'n driw i gofnodion yr heddlu a ddangosai fod dros draean o'r dorf yn y gwrthdystiad dan sylw yn fenywod a phlant.[63] Yn groes i'r disgwyliadau cymdeithasol y dylai menywod fod yn feithrinwyr a gofalwyr, mae'r fam yn y ddelwedd yn dangos ei gallu i arwain a gweithredu'n gyhoeddus. Mae ei chondemniad lleisiol yn pwysleisio cyfranogiad menywod y Penrhyn yn y sffêr gyhoeddus, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod nifer o'r dynion wedi gadael y gymuned a'u teuluoedd i chwilio am waith mewn mannau eraill.[64] Mae eu gwrthwynebiad ffyrnig tuag at y streic-dorwyr yn dangos y cyfranogiad benywaidd i'r streic.

Mae'r plentyn yn y darlun yn pwyntio at y gweithredu cymunedol yn ystod y streic ac yn tanlinellu pwysigrwydd gweithredu'n gytûn yn anghydfod y llafurwyr. Mae cyfeiriad y pennawd at 'Y Wreigan', 'Yr Hogyn' a hyd yn oed y 'Babi' yn gweiddi 'Bw!!' yn groch ar y bradwyr a dorrodd y streic yn pwysleisio undod y gymuned wrth sefyll yn erbyn y rhai sy'n bradychu'r frwydr dros gyfiawnder a thegwch, ond hefyd pa mor ddwfn y mae'r brad yn treiddio, gan fod hyd yn oed baban yn ei ddeall. Unwaith eto, gellir cymharu'r 'hogyn' â'r bachgen yn y cartŵn gwleidyddol cyntaf Cymraeg. Yn 1797, mae'r bachgen yn moesymgrymu o flaen yr offeiriad fel y fam-gu, gan dynnu ei gap mewn ofn. Yma, mae'r hogyn yn protestio'n groch, gan ddilyn esiampl ei fam ddewr, sy'n weithredol yn y streic.[65]

Mae teitl y cartŵn 'Ffwlbri Bethesda' ac ymateb y stiward sy'n arwain y streic-dorwyr i'r chwarel, 'Now Officers; That is a Conspiracy; Summon them!', yn gwahodd y gynulleidfa i wawdio'r dynion sy'n torri'r streic, gan eu bod yn gorfod cael eu hebrwng gan yr heddlu rhag i fenywod a phlant ymosod arnynt, a'u galw'n gachgwn. Try stereoteipiau rhywedd

---

[61] 'Ffwlbri Bethesda', *Papur Pawb*.
[62] 'Gwreigan', yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ar-lein).
[63] Jones, *North Wales Quarrymen*, t. 238.
[64] Davies, *Hanes Cymru*, t. 468.
[65] Löffler, 'Family Matters'.

wyneb i waered yma. Mae'r ffaith bod y rhybudd yn Saesneg, ac yn cyfeirio'n glir at bŵer y wladwriaeth, yn dynodi bod gweithredu'r menywod Cymreig yn cael ei gymryd o ddifrif gan y wladwriaeth Saesneg. Mae'r fenyw a'r bachgen, ar yr ochr arall, yn ymddangos yn flaengar, gan wynebu'r pedwar heddwas sy'n diogelu un streic-dorrwr yn hyderus. Mae ei phresenoldeb yn fawr ac yn glir, ac yn arddangos pŵer ac amlygrwydd menywod yn y gymuned yn ystod y Streic Fawr.

Ar y cyfan, mae 'Ffwlbri Bethesda' yn cynnig sylwebaeth weledol bwerus ar rôl menywod mewn protestiadau llafur a mudiadau cymdeithasol, ar herio normau rhywedd a dathlu gallu menywod, ac ar undod teuluol sy'n dibynnu ar y mamau yn wyneb gormes. Mae'n gwahodd y darllenwyr i ailystyried rhagdybiaethau traddodiadol am rolau menywod a chydnabod eu cyfraniadau hanfodol at frwydrau dros gyfiawnder a chydraddoldeb.

## Casgliad

Mae'r erthygl hon wedi archwilio portreadau o fenywod mewn cartwnau a ymddangosodd yn *Papur Pawb* yn ystod cyfnod Streic Fawr y Penrhyn, 1900–03. Trwy ddadansoddiad manwl o gartwnau gan J. R. Lloyd Hughes, mae'r astudiaeth yn nodi ac yn dehongli tri phrif archdeip o fenywod: sef dioddefwyr tawel, ffigyrau diwylliannol a gynrychiolir gan gymeriadau fel Jenny a Shan, ac ymgyrchwyr gweithgar sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynnwrf y streic. Mae'r cynrychioliadau gweledol hyn yn cael eu dadansoddi yng nghyd-destun amodau cymdeithasol-wleidyddol cyfoes a diwylliant gweledol ehangach Cymru. Er mai dim ond darlun cyfyngedig y gall cartwnau ei gynnig, maent yn parhau i fod yn ffynonellau pwysig ar gyfer deall digwyddiadau hanesyddol a theimlad y cyhoedd, gan ddarparu mewnwelediadau unigryw na all cofnodion ysgrifenedig eu dal eu hunain.

Mae'r dadansoddiad yn datgelu nad oedd menywod yng nghartwnau *Papur Pawb* yn ffigyrau goddefol yn unig ond eu bod yn chwarae rhan symbolaidd ac ymarferol hanfodol yn y drafodaeth gyhoeddus ynghylch y streic. Mae'r 'dioddefwyr tawel' yn adlewyrchu'r disgwyliadau traddodiadol mewn perthynas â menywod, gan eu darlunio'n dioddef caledi mewn distawrwydd ac yn cynnal urddas domestig tra bod eu gwŷr yn ymladd brwydrau diwydiannol. Mewn cyferbyniad, mae cymeriadau fel Jenny a Shan yn herio'r normau hyn, gan gymryd rhan mewn trafodaethau gwleidyddol ac ymgorffori gwytnwch a'r gallu i wneud penderfyniadau, hyd yn oed pan gânt eu portreadu mewn trosiadau gweledol confensiynol. Mae'r trydydd categori, 'yr ymgyrchwyr', yn darlunio menywod fel cyfranogwyr lleisiol mewn protestiadau a therfysgoedd, gan dynnu sylw at gyfraniadau sylweddol menywod i fudiadau llafur yng ngogledd Cymru.

Mae'r cartwnau hefyd yn amlygu'r croestoriad rhwng gwrthdaro diwydiannol lleol a phryderon imperialaidd, megis Rhyfel y Boer, gan ddangos sut yr oedd y wasg yn plethu brwydrau dosbarth gweithiol Cymru â naratifau imperialaidd ehangach. Trwy osod y cartwnau hyn o fewn hanesyddiaeth ehangach diwylliant gweledol a hunaniaeth Gymreig, mae'r astudiaeth yn tynnu sylw at sut y cyfrannodd y cyfryngau gweledol at lunio ac adlewyrchu syniadau o genedl, rhywedd a dosbarth.

Mae'r ymchwil hon yn cyfrannu'n sylweddol at hanes menywod Cymru ac astudiaethau ar ddiwylliant gweledol trwy roi blaenoriaeth i leisiau menywod a delweddau ohonynt sy'n aml wedi cael eu hesgeuluso yn hanesyddiaeth y diwydiant llechi. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd integreiddio ffynonellau gweledol mewn dadansoddiad hanesyddol er mwyn cyrraedd dealltwriaeth lawnach o ddeinameg gymdeithasol y gorffennol, fel yng ngwaith Peter Lord a Chris Williams. Yn y pen draw, mae'r erthygl yn dadlau nad chwilfrydedd artistig yn unig yw cartwnau fel y rhai yn *Papur Pawb* ond dogfennau hanfodol sy'n helpu i adfer profiadau menywod, gan gyflwyno safbwyntiau newydd ar hanes diwydiannol gogledd Cymru a naratif ehangach hunaniaeth genedlaethol Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

## Llyfryddiaeth

### Ffynonellau cynradd

Y Dudalen Flaen (1893), *Papur Pawb*, t. 1.

'Bethesda a'r Cylch' (1901), *Yr Herald Cymraeg*, t. 3.

'Cydymdeimlo' (1901), *Papur Pawb*, t. 1.

'Ffwlbri Bethesda' (1901), *Papur Pawb*, t. 9.

'Y Cwmwl dros Bethesda' (1901), *Papur Pawb*, t. 9.

Y Dudalen Flaen (1902), *Papur Pawb*, t. 10.

'Yn Methesda' (1903), *Papur Pawb*, t. 11.

'The Penrhyn Quarry' (c. 1920) (Bangor: North Wales Chronicle Co).

Jones, C. S., a Hughes, J. E. (2003), *What I Saw at Bethesda* (Llandysul: Gomer).

### Ffynonellau eilaidd

Aaron, J. (1998), *Pur fel y Dur: y Gymraes yn Llên Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Aaron, J., a Rees, T. (1994), 'Introduction', yn *Our Sisters' Land: The Changing Identities of Women in Wales*, Aaron, J., Rees, T., Betts, S., a Vincentelli, M. (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 1–14.

Ackermann, J. A. (1979), 'The impact of the coal strike of 1977–1978', *ILR Review*, 32 (2), 175–88.

Archifau Gwynedd (2003), 'Pay, Strikes and Living Conditions', *Slatesite / Llechwefan*, <http://www.llechicymru.info/IPSLquarrymgmnt.english.htm> [Cyrchwyd: 10 Medi 2022].

Barrell, J. (2013), *Edward Pugh of Ruthin 1763–1813: 'A Native Artist'* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Beddoe, D. (2000), *Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth-Century Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Bruley, S. (2010), *The Women and Men of 1926: A Gender and Social History of the General Strike and Miners' Lockout in South Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Church, R., ac Outram, Q. (2002), *Strikes and solidarity: Coalfield conflict in Britain, 1889–1966* (Cambridge: Cambridge University Press).

Danelski, D. J., a Tulchin, J. S. (goln) (1973), *The Autobiographical Notes of Charles Evans Hughes* (Cambridge, MA: Harvard University Press).

Davies, E. (2003), *The North Wales Quarry Hospitals: And the Health and Welfare of the Quarrymen* (Gwynedd: Gwynedd Archives).

Davies, J. (1990), *Hanes Cymru* (Llandybie: Penguin).

Davies, K. (1996), 'Cleaning up the coal-face and doing out the kitchen: the interpretation of work and workers in Wales', yn Kavanagh, Gaynor (gol.), *Making Histories in Museums* (London: Leicester University Press), tt. 105–15.

Davies, W. L. (1953), 'Catrin (Katheryn) o'r Berain (1534/5–1591), "Mam Cymru"', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-CATR-BER-1534> [Cyrchwyd: 18 Chwefror 2025].

De Campos, D., a Buso, L. (2021), 'The faces hidden in the anatomy of Michelangelo Buonarroti's Pietà in the Vatican', *Acta Biomed*, 92 (2), *Acta Biomed*, 92 (2), <The faces hidden in the anatomy of Michelangelo Buonarroti's Pietà in the Vatican - PubMed> [Cyrchwyd: 19 Mehefin 2025]. Doi:10.23750/abm.v92i2.9152.

Douglas-Pennant, E. (2005), 'Penrhynism: The Second Lord Penrhyn and Trade Unionism', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 66, 126–36.

Ellis, J. S. (1998), 'Reconciling the Celt: British National Identity, Empire, and the 1911 Investiture of the Prince of Wales', *Journal of British Studies*, 37 (4), 391–418.

Griffin, E. (2020), *Bread winner: an intimate history of the Victorian economy* (New Haven: Yale University Press).

Gwyn, D. (2001), 'The industrial town in Gwynedd', *Landscape History*, 23 (1), 71–89.

Hall, V. G. (2013), *Women at Work, 1860–1939: How Different Industries Shaped Women's Experiences* (Woodbridge: Boydell & Brewer).

Hayman, R. (2017), *Bethesda: An Urban Character Study* yn *Llechi Cymru* (Cyngor Gwynedd Council).

Hughes, J. E. (2004), 'Introduction', yn Jones, Charles Sheridan (gol.), *What I Saw at Bethesda* (Llandysul: Gomer), tt. vii–xxiv.

Humphreys, E. M. (1953), 'Rees, Daniel (1855–1931), Newyddiadurwr', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-DAN-1855> [Cyrchwyd: 13 Chwefror 2024].

John, A. V. (1980), *By the Sweat of Their Brow: Women Workers at Victorian Coal Mines*, (London: Croom Helm).

John, A. V. (1982), 'Scratching the Surface: Women, Work and Coalmining History in England and Wales', *Oral History*, 10 (2), 13–26.

Jones, D. (2011), 'Counting the Cost of Coal: Women's Lives in the Rhondda, 1881–1911', John, A. V. (gol.) yn *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830–1939* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 110–133.

Jones, R. M. (1975), 'The Trade Union and Political Activities of the North Wales Slate Quarrymen in Relation to Their Social and Working Conditions, 1870–1905', traethawd PhD, Prifysgol Warwick, Warwick, 1975.

Jones, R. M. (1981), *The North Wales Quarrymen, 1874–1922* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Jones, R. M. (2014), 'Preface to the reprinted edition', yn *The North Wales Quarrymen, 1874–1922* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Judd, D., a Surridge, K. (2013), *The Boer War: A History* (London: Bloomsbury Publishing).

Lewis, C. (1995), 'Welsh soap: "Pobol Y Cwm" and Welsh national identity', *Critical Survey*, 7 (2), 152–7.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 'Papur Pawb', <https://newspapers.library.wales/browse/3585945> [Cyrchwyd: 17 Chwefror 2024].

Löffler, M. (2016), 'HALL, AUGUSTA, Lady Llanover ("Gwenynen Gwent") (1802–1896), patron of Welsh culture and inventor of the Welsh national costume', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://biography.wales/article/s10-HALL-AUG-1802> [Cyrchwyd: 16 Chwefror 2024].

Löffler, M. (2014), 'Thomas Roberts, o Lwynrhudol, Cwyn yn erbyn Gorthrymder, Yn ghyda Sylwiadau ar hawl Esgobion, a'u Gweinidogion i Ddegymau, &c. Wedi ei Ysgrifenuer Mwyn Gwerinos Cymru', yn Löffler, Marion, gyda Jenkins, Bethan (goln), *Political Pamphlets and Sermons from Wales 1790–1806* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Löffler, M. (2023), 'Ar Dân! Stori y "Blwtsiars Hambro"', *History@Cardiff*, <https://blogs.cardiff.ac.uk/history-at-cardiff/fire-news-and-slate-the-story-of-the-hamburg-bluchers/> [Cyrchwyd: 22 Medi 2024].

Löffler, M. (2024), 'Family Matters: War-time Discourses on Women in Wales, 1793–1805', yn Jenkins, B., O'Leary, P., a Ward, S., *Gender in Modern Welsh History: Perspectives on Masculinity and Femininity in Wales from 1750 to 2000* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 93–103.

Lord, P. (1995), *Words with pictures: Welsh images and images of Wales in the popular press, 1640–1860* (Aberystwyth: Planet).

Lord, P. (1998), *Diwylliant Gweledol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lord, P. (1998), *The Visual Culture of Wales: Industrial Society* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lord, P. (2000), *Imaging the Nation* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lord, P. (2000), *Y Gymru Ddiwydiannol: Diwylliant Gweledol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lord, P. (2004), *Delweddu'r Genedl: Diwylliant Gweledol Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lord, P. (2023), *The Tradition: A New History of Welsh Art 1400–1990* (Aberteifi: Parthian Books).

Miskell, L. (2020), 'Women and Steel in Mid-Twentieth Century Glamorgan', *The Journal of Glamorgan History*, 64, 81–105.

Morris, J. H., a Williams, L. J. (1958), *The South Wales Coal Industry, 1841–1875* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

National Trust, 'The Great Penrhyn Quarry Strike', *Penrhyn Castle and Garden*, <https://www.nationaltrust.org.uk/visit/wales/penrhyn-castle-and-garden/the-great-penrhyn-quarry-strike> [Cyrchwyd: 20 Mawrth 2021].

O'Leary, P. (2024), 'Masks and Matter: Mining Masculinities in the South Wales Coalfield, 1870–1914', yn Jenkins, B., O'Leary, P., a Ward, S., *Masks and Matter: Mining Masculinities in the South Wales Coalfield, 1870–1914* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Pritchard, A., a Morgan, N. (2019), 'Representations of "Ethnographic Knowledge": Early Comic Postcards of Wales', yn *Discourse, Communication, and Tourism*, Jaworski, A., a Pritchard, A. (Bristol, Blue Ridge Summit: Multilingual Matters), tt. 53–76.

Richards, A. J. (2006), *Slate Quarrying in Wales* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Roberts, G. M. (1997), 'Howel Harris Hughes (1873–1956), gweinidog (MC), prifathro'r Coleg Diwinyddol, Aberystwyth', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-HUGH-HAR-1873> [Cyrchwyd: 12 Mawrth 2025].

Rowlands, E. W. (2010), 'Margaret Jane Parry (1878–1940): Madame Telini', *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 71, 104–13.

Siebrecht, C. (2013), *The Aesthetics of Loss: German Women's Art of the First World War* (Oxford: Oxford University Press).

Stevens, C. (2017), *Voices from the Factory Floor: The Experiences of Women Who Worked in the Manufacturing Industries in Wales, 1945–75* (Stroud: Amberley Publishing).

Strange, J.-M. (2015), *Fatherhood and the British Working Class, 1865–1914* (Cambridge: Cambridge University Press).

Taylor, M. (1992), 'John Bull and the iconography of public opinion in England c. 1712–1929', *Past & Present*, 134, 93–128.

Taylor, M. (2017), 'Bull, John (supp. fl. 1712–), fictitious epitomist of Englishness and British imperialism', *Oxford Dictionary of National Biography*, <https://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-68195> [Cyrchwyd: 28 April 2024].

The Editors of Encylopedia Britannica (2023), 'Pietà', *Encyclopedia Britannica*, <https://www.britannica.com/topic/Pieta-iconography> [Cyrchwyd: 28 April 2025].

The Editors of Encylopedia Britannica (2024), 'Punch (British Periodical)', *Encyclopedia Britannica* <https://www.britannica.com/topic/Punch-British-periodical> [Cyrchwyd: 28 April 2025].

Thomas, T. M. (1956), 'Wales: Land of Mines and Quarries', *Geographical Review*, 46 (1), 59–81.

UNESCO (2021), 'The Slate Landscape of Northwest Wales', <https://whc.unesco.org/en/list/1633/> [Cyrchwyd: 9 Chwefror 2023].

Visit Wales, 'Zip World Penrhyn Quarry', <https://www.visitwales.com/activity/zip-world-penrhyn-quarry-1446056> [Cyrchwyd: 20 April 2024].

Ward, S. (2024), 'Heroic Housewives: Political Worlds, Domesticity and the Welsh Mam in Interwar Wales', yn *Gender in Modern Welsh History: Perspectives on Masculinity and*

*Femininity in Wales from 1750 to 2000*, Jenkins, B., O'Leary, P. a Ward, S. (Cardiff: University of Wales Press), tt. 93–103.

Williams, C. (2013), '"Our War History in Cartoons Is Unique": J. M. Staniforth, British Public Opinion, and the South African War, 1899–1902', *War in History*, 20 (4), 491–525.

Williams, G. A. (1982), 'Women Workers in Wales, 1968–82', *Welsh History Review/ Cylchgrawn Hanes Cymru*, 11, 530.

Williams, G. A. (1985), *When was Wales? A History of the Welsh* (Harmondsworth: Penguin).

Wright, M., 'Wales and socialism: political culture and national identity c. 1880–1914', traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2011.